Cyfeirnod(au) y Papur

**6957/01**

# Edexcel GCE

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Mai 2008

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Ni ddylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr yn gynharach na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

Rhif Log yr Argraffwr
N34753A

N 3 4 7 5 3 A

W850/R6957/57570 1/1/

*Trowch y dudalen*

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2008 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

**Cwmni Adeiladu Green Bay**

Sefydlwyd Cwmni Adeiladu Green Bay yn 2003 gan David Green. Roedd David wedi hyfforddi fel pensaer ac mae wedi bod yn cynllunio tai ers 1985. Gydag amser, mae David wedi dechrau pryderu am gynhesu byd-eang ac mae wedi cyflwyno i gynlluniau ei dai agweddau er mwyn sicrhau bod ôl-troed carbon y preswylwyr mor fach â phosibl. Yn anffodus mae'r addasiadau hyn yn tueddu i wneud y tai yn fwy drud i'w cynhyrchu. Nid oedd y cwmni adeiladu yr oedd David yn gweithio iddo ar y pryd yn hoffi'r addasiadau gan eu bod yn golygu llai o elw. O ganlyniad, cafodd David gyfarwyddyd i'w tynnu o'i gynlluniau.

Gan nad oedd yn gallu dod o hyd i gwmni adeiladu i fabwysiadu ei gynlluniau chwyldroadol, penderfynodd David mai'r unig ffordd y byddai ei gynlluniau'n cael eu derbyn oedd petai'n creu ei gwmni adeiladu ei hun. O ganlyniad, crëwyd Cwmni Adeiladu Green Bay.

Ers ei gychwyn mae Cwmni Adeiladu Green Bay wedi creu nifer o ddatblygiadau llwyddiannus. Mae David wedi darganfod y bydd rhai pobl yn talu'n ychwanegol os ydynt o'r farn bod y tŷ yn eco-gyfeillgar ac y byddent yn talu mwy byth pe byddent o'r farn y byddai arbedion o ran tanwydd.

Yn ddiweddar, mae Cwmni Adeiladu Green Bay wedi adeiladu datblygiad tai ar safle adeiladu tir llwyd (*brown-field*) yn Tewkesbury ac mae ar fin dechrau arwerthu'r gwahanol blotiau.

**Yr Arwerthiant**

Cynhelir yr arwerthiant o fis Mai i fis Gorffennaf 2008. Bydd darpar gynigwyr (*bidders*) yn gwneud cais i Gwmni Adeiladu Green Bay am ID defnyddiwr a chyfrinair. Gallant wneud cais ar unrhyw adeg rhwng dechrau'r arwerthiant a'r diwrnod y mae'r arwerthiant yn gorffen. Mae gan y datblygiad 57 plot gydag wyth math gwahanol o dŷ ac mae nifer pob math o dŷ yn y datblygiad yn amrywio. Gan fod yr holl blotiau fwy neu lai yr un fath, bydd y cynigwyr yn gwneud cais am fath o dŷ yn hytrach nag am blot penodol. Pan fydd yr arwerthiant yn gorffen bydd Rheolwr yr Arwerthiant yn dyrannu'r plotiau i'r cynigwyr uchaf ar gyfer y math hwnnw o dŷ. Er enghraifft, os oes deg tŷ pâr, tair ystafell wely, caiff plot ei ddyrannu i'r deg cynigydd uchaf am y math hwnnw o dŷ. Bydd hysbysiad yn cael ei anfon at gynigwyr llwyddiannus yn rhoi manylion rhif y plot a ddyrannwyd iddynt.

Pan fydd cynigwyr wedi derbyn eu ID defnyddwyr, dylai fod yn bosibl iddynt fewngofnodi i'r system gynnig. Os ydynt yn rhoi ID defnyddiwr a chyfrinair cywir byddant yn cael eu tywys i'r sgrin gynnig. Yna gallant ddewis pa fath o dŷ sydd ei angen arnynt. Bydd yr ID defnyddiwr a gwerth cynnig y cynigion hynny sy'n llwyddiannus ar hyn o bryd yn cael eu harddangos. Er enghraifft, os oes wyth plot yn cynnwys math penodol o dŷ yna bydd yr wyth cynnig uchaf am y rhain yn cael eu dangos. Gall cynigwyr wedyn gyflwyno eu cynnig eu hunain. Os yw eu cynnig yn llai na'r cynnig llwyddiannus isaf hyd yn hyn yna caiff neges ei harddangos yn datgan bod eu cynnig yn aflwyddiannus. Os yw'n uwch na'r cais llwyddiannus isaf hyd yn hyn yna bydd y cynnig yn cael ei dderbyn. Bydd rhestr y cynigion llwyddiannus wedyn yn cael ei hadnewyddu i ddangos y rhestr newydd. Ar wahân i'r cynigion llwyddiannus, ni ddylai fod yn bosibl i gynigwyr weld manylion y cynigwyr eraill.

**Y system arfaethedig**

Mae angen i chi greu cronfa ddata newydd a fydd yn dal y data sydd ei angen i ymgymryd â'r arwerthiant ac i ddyrannu'r plotiau i'r cynigwyr llwyddiannus. Caiff ychydig o ddata prawf a gynhyrchwyd ar gyfrifiadur ei roi i chi er mwyn rhoi prawf ar eich system.